# Climate Adaptation

Ymaddasu i Newid Hinsawdd

Sir Benfro PCF Fforwm Arfordir Pembrokeshire Coastal Forum

# Mapio Rhanddeiliaid

Mapio Rhanddeiliaid

# Sut i wneud Mapio Rhanddeiliaid

## Cyflwyniad - Mapio Rhanddeiliaid

Mae mapio rhanddeiliaid yn arf defnyddiol ar gyfer nodi a mynd i'r afael â gwrthdaro posibl yn gynnar. Mae'n eich helpu i deilwra cyfathrebu i wahanol grwpiau rhanddeiliaid. Yn ogystal, mae'n helpu i nodi rhanddeiliaid allweddol - y rhai sydd â'r diddordeb, yr effaith a'r dylanwad mwyaf i helpu gyda chynlluniau addasu i'r hinsawdd.

Mae'n hanfodol nodi rhanddeiliaid ar gyfer eich prosiect addasu i'r hinsawdd gan ei fod yn sicrhau bod anghenion, diddordebau a disgwyliadau'r holl bartïon perthnasol yn cael eu deall ac yn cael sylw, gan arwain at gyflawni'r prosiect yn llyfnach a mwy o siawns o lwyddo.

Mae eich rhanddeiliaid yn cynnwys unrhyw unigolion, busnesau/cwmnïau neu sefydliadau a allai effeithio ar eich prosiect, neu gael eu heffeithio ganddo (yn gadarnhaol neu'n negyddol). Mae'n ddefnyddiol nodi rhanddeiliaid ar ddechrau prosiect trwy sesiynau taflu syniadau cyn defnyddio technegau mapio rhanddeiliaid.

## Technegau Mapio Rhanddeiliaid

Mae sawl dull o fapio rhanddeiliaid. Isod mae cyfarwyddiadau a thempledi rhai offer mapio a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer eich prosiectau addasu i'r hinsawdd.

### Grid dylanwad-diddordeb

Mae'r grid dylanwad-diddordeb yn offeryn syml a chyflym ar gyfer categoreiddio rhanddeiliaid yn seiliedig ar eu dylanwad a'u diddordeb. Mae'n eich helpu i benderfynu ar y lefel a'r math o gyfathrebu sydd fwyaf priodol ar gyfer pob rhanddeiliad neu grŵp.

Plotiwch bob rhanddeiliad ar y grid, gan nodi bod eu dylanwad yn uchel neu'n isel ar hyd yr echelin 'y' a'u diddordeb yn uchel neu'n isel ar hyd yr echelin 'x'.

- Dylanwad **uchel** a diddordeb **uchel** – Dyma'r rhanddeiliaid sy'n aml yn cael yr effaith fwyaf ar lwyddiant eich prosiect, eich **rhanddeiliaid allweddol**. Anelwch at **ymgysylltu'n llawn** â'r rhanddeiliaid hyn.

| |
|---|
| • Dylanwad **uchel** a diddordeb **isel** - **Ymgysylltwch** â'r rhanddeiliaid hyn **yn rheolaidd** fel eu bod yn cael gwybod am eich prosiect a'u bod **yn fodlon** oherwydd mae ganddynt lefel uwch o ddylanwad.<br><br>• Dylanwad **isel** a diddordeb **uchel** – Rhowch y **wybodaeth ddiweddara**f i'r rhanddeiliaid hyn am eich prosiect gan fod ganddynt lefelau uwch o ddiddordeb a **siaradwch** â nhw i wneud yn siŵr **nad oes unrhyw faterion yn codi**.<br><br>• Dylanwad **isel** a diddordeb **isel** – **Mae angen i chi fonitro'r** rhanddeiliaid hyn ond **peidiwch â'u diflasu** gyda **chyfathrebu** gormodol. |
| Dylanwad<br>Diddordeb<br>Isel<br>Uchel |
| Grid gwybodaeth-cefnogaeth<br><br>Yn yr un modd â'r grid diddordeb-cefnogaeth, mae'r offeryn hwn yn mapio rhanddeiliaid yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u cefnogaeth i brosiect. Plotiwch bob rhanddeiliad ar y grid, gan nodi bod eu gwybodaeth yn uchel neu'n isel ar hyd yr echelin 'y' a'u cefnogaeth yn uchel neu'n isel ar hyd yr echelin 'x'.<br>• Gwybodaeth **uchel** a chefnogaeth **uchel** – **Ymgysylltwch yn llawn** â'r rhanddeiliaid hyn fel y gallant barhau i hyrwyddo eich prosiect.<br><br>• Gwybodaeth **uchel** a chefnogaeth **isel** – Gall y rhanddeiliaid hyn achosi risg i'ch prosiect gan fod ganddynt farn wahanol yn aml, mae angen i chi eu **rheoli'n ofalus**.<br><br>• Gwybodaeth **isel** a chefnogaeth **uchel** – Bydd **ymgysylltu** â'r rhanddeiliaid hyn yn helpu i **gynyddu** eu **gwybodaeth** a **chryfhau eu cefnogaeth**.<br><br>• Gwybodaeth **isel** a chefnogaeth **isel** – Gall **cynyddu gwybodaeth** y rhanddeiliaid hyn trwy ymgysylltu **ennyn eu cefnogaeth**. |
| Gwybodaeth<br>Cefnogaeth<br>Isel<br>Uchel |
| Mapio rhanddeiliaid ar sail mater |

| |
|---|
| Mae mapio rhanddeiliaid ar sail mater yn caniatáu grwpio yn ôl materion penodol. Dylid ei ddefnyddio pan fydd angen i chi fynd i'r afael â heriau neu bryderon penodol o fewn eich prosiect, a phan fydd gwahanol randdeiliaid yn rhoi blaenoriaeth i faterion gwahanol. Nodwch y gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, ac yn seiliedig ar ymgysylltu blaenorol neu gyfweliadau rhanddeiliaid, nodwch y materion sy'n ymwneud fwyaf â nhw. Bydd hyn yn eich helpu i gyfathrebu'n effeithiol gyda phob grŵp am y materion sy'n bwysig iddynt.<br>Enghraifft: |
| Grwpiau rhanddeiliaid<br>Grŵp<br><br>Disgrifiad<br>Materion sy’n peri’r pryder mwyaf |
| Cymunedau lleol |
| Asiantaethau’r llywodraeth |
| Nid-er-elw amgylcheddol |
| Preswylwyr ac arweinwyr cymunedol mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan lifogydd arfordirol. |
| Yn gyfrifol am ddrafftio a gorfodi rheoliadau addasu i’r hinsawdd. |
| Sefydliadau sy'n ymroddedig i warchod yr amgylchedd lleol. |
| • Difrod a cholli eiddo<br>• Risgiau iechyd a diogelwch<br>• Diffyg cefnogaeth ddigonol |
| • Rheoli ymateb brys<br>• Effaith economaidd<br>• Difrod seilwaith |
| • Effeithiau amgylcheddol<br>• Cyfiawnder amgylcheddol<br>• Bod yn agored i niwed yn y gymuned |